OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 31 (Cy. 13)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Man i'r Dwyrain o Gylchfan Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Ionawr 2017* |
| *Yn dod i rym* | *23 Ionawr 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Amwythig – Dolgellau (yr A458) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Ionawr 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Man i'r Dwyrain o Gylchfan Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2017.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, ar gyfer gwaith cynnal a chadw dros y gaeaf ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 23 Ionawr 2017 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

---

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau a ganlyn o'r gefnffordd yn Sir Powys:

i. y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Tal-y-bont hyd at bwynt 325 o fetrau i'r dwyrain o'r gyffordd honno;

ii. y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 140 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4388 hyd at bwynt 10 metr i'r dwyrain o'r gyffordd honno;

iii. y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 10 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r C2039 Criggion Lane hyd at bwynt 568 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2252 ger The Breidden Inn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y'i dangosir gan arwyddion traffig.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Ionawr 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru